Home Office

# CRONFA PROSIECTAU TROSEDDAU CASINEB CYMUNEDOL

## Cyfarwyddyd i Ymgeiswyr

Hydref 2018

OGL

© Hawlfraint y Goron [2016]

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio pan nodir yn wahanol. Er mwyn gweld y drwydded ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi dynodi unrhyw wybodaeth fel hawlfraint trydydd parti bydd angen ichi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/guidance/preventing-hate-crime-funding-for-community-projects

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn hatecrimeprojects@homeoffice.gov.uk

# Cynnwys


**Cyflwyniad i'r Gronfa Prosiectau Troseddau Casineb Cymunedol** 2

**Yr hyn y mae'r canllaw hwn yn ei roi** 4

**Cyn cyflwyno** 5

**Am beth yr ydym yn chwilio** 7

**Adran 1 – Ynglŷn â'ch Sefydliad a'ch partneriaid** 9

**Adran 2 - Manylion y prosiect** 10

**Adran 4 - Caniatâd** 15

**Adran 5 - Metrics Diwydrwydd Dyledus ac Asesu** 16

**Adran 6 - Ynglŷn â'r grant a'r Asesiad** 18

**Atodiad A - Cyfarwyddyd Gwerthuso** 21

Pam bod monitro a gwerthuso yn bwysig? 21

Gwerthuso prosiect – eich cyfrifoldebau chi 21

Cefnogaeth i werthuso – beth fyddwn ni'n ei ddarparu 21

Map Proses Werthuso 23

C2.9 Sut i lunio Model Rhesymeg 24

Enghreifftiau o ddeilliannau 27

**Atodiad B - Llythyr Cytundeb Sefydliad** 29

# Cyflwyniad i'r Gronfa Prosiectau Troseddau Casineb Cymunedol

Troseddau casineb yw unrhyw droseddau sy'n cael eu hysgogi gan gasineb ar sail hil (ethnigrwydd neu genedligrwydd), crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol. Mae troseddau casineb yn targedu rhan gynhenid o hunaniaeth y dioddefwr a dangosodd gwaith ymchwil bod y niwed seicolegol y gallant ei gael yn gallu bod yn fwy difrifol na throseddau nad ydynt wedi eu hysgogi gan gasineb. Mae troseddau casineb hefyd yn cael effaith ar gymunedau sy'n uniaethu â'r dioddefwr; gall hyn wneud i lawer o gymunedau deimlo eu bod wedi eu dieithrio ac yn byw mewn ofn.

Seilir ymrwymiad y Llywodraeth i ymdrin â'r holl droseddau casineb ar ddeddfwriaeth gadarn, sy'n diogelu cymunedau rhag casineb, trais a rhagfarn. Mae Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn nodi'r strategaeth ar draws y llywodraeth i daclo troseddau casineb, ac yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi fersiwn newydd o'r cynllun hwn sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed yn ogystal â'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ystod y ddwy flynedd nesaf o'r cynllun gweithredu.

Rydym yn falch o gyhoeddi lansio trydedd flwyddyn Cronfa Prosiectau Troseddau Casineb Cymunedol y Swyddfa Gartref (HCCPF), un o'r camau gweithredu allweddol a gynhwyswyd yn y cynllun gweithredu.

Diben y gronfa yw gweithio gyda'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio i ddatblygu ystod o brosiectau peilot i daclo troseddau casineb a dangos beth sy'n gweithio. Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cynnal cyflawni'r pum nod allweddol yng Nghynllun Gweithredu Troseddau Casineb Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

Y pum nod allweddol yw:

1. Atal troseddau casineb – trwy herio'r credoau a'r agweddau a all fod yn sail i droseddau o'r fath

2. Ymateb i droseddau casineb yn ein cymunedau – trwy leihau'r nifer o ddigwyddiadau troseddau casineb.

3. Cynyddu'r adroddiadau am droseddau casineb – er bod cynnydd wedi digwydd yn y troseddau casineb a gofnodir, rydym yn gwybod bod llawer iawn o droseddau casineb yn mynd heb adroddiad amdanynt.

4. Gwella'r gefnogaeth i ddioddefwyr troseddau casineb – mae hyn yn hanfodol i gynyddu hyder dioddefwyr i roi adroddiad am ddigwyddiadau a'u galluogi i deimlo yn hyderus bod y system cyfiawnder troseddol yn deall eu hanghenion.

5. Cynyddu ein dealltwriaeth o droseddau casineb – os byddwn yn deall yr hyn sy’n gyrru troseddau casineb gallwn frwydro yn effeithiol yn erbyn pob ffurf ar droseddau casineb.

Rydym yn chwilio am brosiectau sy’n gweithio gyda phobl sy’n agored i niwed gan droseddau casineb. Sefydliadau cymunedol sydd yn y sefyllfa orau yn aml i ddynodi:

- y problemau sy’n effeithio ar gymunedau;
- sut y gellir ymdrin â nhw;
- sut y bydd y canlyniad a ddymunir oherwydd ymyrraeth yn edrych; a
- beth fyddai’r effaith a ddymunir.

Ceisio manteisio ar wybodaeth, arbenigedd a dealltwriaeth y sefydliadau cymunedol yma y mae’r HCCPF.

Mae’r diwygiad i’r cynllun gweithredu troseddau casineb yn ailadrodd ein hymrwymiad i ddiogelu dioddefwyr a bydd y gronfa hon yn cefnogi cyflawni prosiectau sy’n anelu at gael effaith cadarnhaol ar ddioddefwyr neu’r rhai a all fod yn agored i niwed trwy droseddau casineb. Gall y prosiectau fod yn fodelau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Byddai gennym ddiddordeb yn arbennig mewn prosiectau sy’n targedu pwyntiau penodol o ran digwyddiadau troseddau casineb, fel cludiant cyhoeddus, ar-lein neu economi’r nos. Ond, ni fydd hyn yn effeithio ar asesu ceisiadau ac nid yw’n atal unrhyw fathau eraill o brosiectau rhag ymgeisio.

Mae’r Swyddfa Gartref yn awyddus i ariannu prosiectau hyd at £75,000 yr un yn ystod 2019/20. Rydym yn disgwyl ariannu hyd at 8 prosiect, ond mae’r Swyddfa Gartref yn cadw’r hawl i amrywio’r nifer o brosiectau yr ydym yn eu hariannu.

Mae’r gronfa ar agor i ymgeiswyr o Gymru a Lloegr.

# Yr hyn y mae'r canllaw hwn yn ei roi

Mae'r canllaw hwn yn rhoi golwg gyffredinol o'r mathau o brosiectau yr ydym yn gobeithio eu hariannu a'r meini prawf cymhwyster sydd angen eu bodloni er mwyn i geisiadau gael eu hystyried. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut y dylid llenwi eich cais, sut y bydd yn cael ei asesu a sut y mae cefnogaeth grant yn cael ei roi. Rydym yn annog pob ymgeisydd i adolygu'r cyfarwyddyd hwn cyn cyflwyno cais.

# Cyn cyflwyno

Cyn cyflwyno cais, gwiriwch y meini prawf cymhwyster sylfaenol. Mae nifer o feini prawf cymhwyster y mae'n rhaid i chi eu bodloni i'ch cais gael ei ystyried.

Ym Mhrydain, mae pob un ohonom yn rhydd i fyw'r bywyd a ddewiswn diolch i'r gwerthoedd a rannwn sy'n sail i'n cymdeithas: gwerthoedd sy'n cynnwys democratiaeth, rhyddid i lefaru, parch i'n gilydd a chyfle i bawb.  Ni fydd arian cyhoeddus yn cael ei roi i sefydliadau nad ydynt yn cefnogi gwerthoedd o'r fath.

## Grwpiau sy'n gymwys i ymgeisio

- Unrhyw Elusennau cofrestredig yng Nghymru neu Loegr
- Sefydliad Elusennol Corfforedig yng Nghymru neu Loegr
- Cwmnïau cyfyngedig trwy warant
- Cwmnïau Budd Cymunedol Cofrestredig Nid er Elw
- Grwpiau Sector Cymunedol Gwirfoddol a Chymunedol â Chyfansoddiad
- Partneriaethau 3ydd Sector/Sector Cyhoeddus ar yr amod nad yw'r corff arweiniol wrth ymgeisio am gyllid yn gorff sector cyhoeddus neu lywodraeth leol
- Grwpiau sydd wedi ymgeisio o'r blaen boed wedi bod yn llwyddiannus neu aflwyddiannus yn cael cyllid.

## Beth sydd ddim yn gymwys?

- **Nid** yw grwpiau sydd wedi eu sefydlu ers llai na 12 mis yn gymwys i ymgeisio
- **Nid** yw unigolion neu unig fasnachwyr yn gymwys
- **Ni** fyddwn yn rhoi grantiau ar gyfer tripiau dramor neu i ariannu costau cyfalaf, gan gynnwys cerbydau a gwaith adeiladu
- **Ni** fyddwn yn dyfarnu grantiau i brosiectau i sefydlu llinellau ffôn/gwefannau/aps i roi adroddiadau
- **Nid** yw'r gronfa yn cynnwys yr Alban ac Iwerddon

## Gwybodaeth ddefnyddiol

- Bydd raid i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau eu prosiectau a chyflwyno eu holl anfonebau ar gyfer y prosiect erbyn **31 Mawrth 2020**.
- Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu copi o'u polisi cyfle cyfartal. Pan fydd cynigion neu sefydliadau yn gysylltiedig â chynigion yn wasanaethau ar wahân ac unigol "h.y. gwasanaethau wedi eu targedu at un nodwedd benodol", yna rhaid i'r

ymgeisydd ddangos sut y mae'n bodloni Deddf Cydraddoldeb 2010, atodlen 7, isadran 26 neu 27 neu 28 neu 29 neu 30.

- Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu mynediad i wybodaeth am y prosiect a/neu ddata fel y bydd y Swyddfa Gartref yn gofyn a gweithio yn unol â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Am ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn prosesu a diogelu eich gwybodaeth a'ch hawliau yng nghyswllt hyn, gweler yr Hysbysiad Gwybodaeth Preifatrwydd.
- Disgwylir i brosiectau lunio gwerthusiad, y mae'n rhaid iddo fod ar gael yn gyhoeddus, fel rhan o'u cytundeb ariannu. Bydd y Swyddfa Gartref yn darparu hyd at ddau ddiwrnod o gefnogaeth gwerthuso i brosiectau llwyddiannus.

# Am beth yr ydym yn chwilio

Rydym yn chwilio am grwpiau cymunedol llawn cymhelliant a chreadigol sy'n gweithio ar y cyd i ddatblygu prosiectau sy'n helpu i daclo troseddau casineb a phroblemau yn gysylltiedig â throseddau casineb. Rhaid i ddatblygiad eich prosiect gynnwys rhanddeiliaid y mae troseddau casineb wedi effeithio arnynt, sydd wedi cyflawni troseddau casineb neu all eu cyflawni, neu'r rhai sy'n cefnogi dioddefwyr neu gyflawnwyr troseddau casineb.

Dylech fedru dangos cofnod da o ddatblygu a/neu gyflawni prosiectau, a anelwyd at un neu fwy o'r canlynol (ond nid hynny'n unig):

- cefnogi dioddefwyr troseddau casineb;
- eiriol dros grwpiau y mae troseddau casineb yn effeithio arnynt;
- hybu cydlyniad cymunedol;
- gweithio gyda phlant a phobl ifanc i atal agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol a all arwain at droseddau casineb;
- grymuso a chefnogi plant a phobl ifanc i herio agweddau ac ymddygiad gwahaniaethol a all arwain at droseddau casineb;
- gwrthweithio naratif casineb ar-lein gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol;
- datblygu naratif cymdeithasol cadarnhaol i bobl ifanc;
- ennyn pobl ifanc ac oedolion i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn modd positif;
- cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb a sut i roi adroddiad amdanynt trwy amrywiaeth o gyfryngau cymdeithasol;
- cefnogi cymunedau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg;
- taclo anfantais a diffyg cydraddoldeb;
- cynyddu ymwybyddiaeth o droseddau casineb ac annog y grwpiau targed nad ydynt yn rhoi adroddiadau i ddod ymlaen e.e. cymunedau sipsiwn a theithwyr, pobl anabl; a

- thaclo’r niwed a’r effaith ar y gymuned ehangach sy’n deillio o droseddau casineb.

Rhaid i’r holl brosiectau sydd yn cael eu cyflawni ddangos, wrth ddynodi’r prosiect, eu bod wedi cysylltu â dioddefwyr, y rhai sy’n ystyried eu bod mewn perygl neu’r rhai sydd wedi cyflawni troseddau, a’r rhai sydd mewn perygl o gyflawni troseddau casineb, a’u bod wedi bod yn rhan ganolog o ddatblygu’r prosiect.

# Adran 1 – Ynglŷn â’ch Sefydliad a’ch partneriaid

Yn adran 1 (cwestiynau 1.1 i 1.14) o’r ffurflen gais, rydym yn gofyn am wybodaeth am eich sefydliad. Os bydd eich cais yn llwyddiannus efallai y byddwn yn gofyn am dystlythyrau.

Rhowch fanylion am y sefydliad arweiniol (y sefydliad fydd yn derbyn cyllid ar gyfer y prosiect) a chynnwys:

- amcanion neu ddatganiad cenhadaeth eich sefydliad;
- dogfennau llywodraethu (cyfansoddiad neu set o reolau);
- polisi cyfle cyfartal;
- statws elusennol neu gyfreithiol;
- Statws TAW;
- incwm a gwariant blynyddol;
- canran y cyllid o ffynonellau cyhoeddus; a
- lefelau staff a gwirfoddolwyr.

Sylwer, os byddwch yn llwyddiannus, efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu eich cyfrifon am y 12 mis diwethaf.

Os ydych yn gweithio fel rhan o bartneriaeth, rhowch lythyr wedi ei lofnodi ynghlwm hefyd gan bob sefydliad partner i ddangos eu bod yn cytuno â’r prosiect arfaethedig. Defnyddiwch y templed a roddir yn **Atodiad B.**

# Adran 2 - Manylion y prosiect

**Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar gyfer cwestiynau 2.3 i 2.10 yn cael ei gwerthuso a'i hasesu mewn cymhariaeth â'r metrics asesu (adran 5).**

## C 2.1 Swm y cyllid

Mae cyllid o hyd at £75,000 ar gael i bob prosiect.  Nodwch faint o gyllid yr ydych ei angen.

## C2.2 Enw eich Prosiect/Rhaglen

Rhowch enw i'ch rhaglen fel ein bod yn gallu cyfeirio ati. Cadwch yr enw yn fyr a bachog.

## C2.3A – 2.3D Beth fydd yn cael ei gynnwys yn eich prosiect?

Dylai ymgeiswyr ddangos cysylltiad clir rhwng y **broblem** i'w datrys, y **gweithgaredd** fydd yn cael ei gynnal i ddatrys y broblem a sut y bydd yn cael ei **gyflawni.** Mae'r sut a'r pam ill dau yn bwysig.

**C2.3A** - disgrifiwch unrhyw dystiolaeth yr ydych wedi ei chasglu. Gall yr enghreifftiau o dystiolaeth gynnwys:

- ystadegau cenedlaethol a lleol;
- tystiolaeth o ymgynghoriadau;
- adborth gan grwpiau cymunedol neu ddefnyddwyr gwasanaeth; neu
- gyhoeddiadau ymchwil diweddar.

Gwnewch yn siŵr bod unrhyw ymgynghori neu ymchwil yr ydych wedi eu cynnal yn berthnasol ac yn llai na 2 flwydd oed.

**C2.3B** – dylai'r gweithgareddau gael eu diffinio yn glir a'u cysylltu â'i gilydd yn rhesymegol. Wrth feddwl am yr hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud, mae'n werth defnyddio geiriau fel:

- *darparu;*
- *rhedeg;*
- *trefnu;*
- *cynhyrchu; neu*
- *ddatblygu.*

**C2.3C** - nodwch y ffordd y byddwch yn cyflawni'r gweithgareddau fel:

- *defnyddio rhwydweithiau;*

- *rhannu adnoddau;*
- *tynnu ar sgiliau/gwybodaeth partneriaid; neu*
- *ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid eraill e.e. gwasanaethau rheng flaen, grwpiau cymunedol eraill.*

**C2.3D** - Dylech esbonio yn glir sut a pham yr ydych yn disgwyl i'ch gweithgareddau helpu i gyflawni eich nodau. Wrth ddisgrifio nodau'r prosiect, ystyriwch ddefnyddio geiriau fel:

- *annog;*
- *gwella;*
- *cynyddu; neu*
- *leihau.*

## C2.4 Amlinellwch gerrig milltir allweddol y prosiect yr ydych yn bwriadu eu cyflawni a'r dyddiadau disgwyliedig ar gyfer y rhain.

Llenwch y tabl gan amlinellu:

- y gweithgareddau neu 'gerrig milltir' yr ydych wedi eu cynllunio; a
- phryd yr ydych yn disgwyl i'r cerrig milltir yma gael eu cyrraedd.

Bydd angen i'ch cerrig milltir fod yn glir, realistig, yn wahanol i'w gilydd, ag amserlenni clir, ac yn cwmpasu oes y prosiect. Gwnewch yn siŵr bod y cerrig milltir yn cysylltu yn ôl â'r gweithgareddau a amlinellir yn C2.3B.

Rhoddir rhai enghreifftiau o gerrig milltir 'da' a 'drwg' yn y tabl isod.

| CERRIG MILLTIR 'DA' | CERRIG MILLTIR 'DRWG' |
|---|---|
| Cyflogi rheolwr i'r prosiect | Recriwtio |
| Cwblhau deunyddiau hyrwyddo | Cyflawni'r prosiect yn barhaus |
| Cynnal digwyddiad i ymgysylltu â'r gymuned | Casglu data a'i ddadansoddi yn barhaus |
| Recriwtio 10 hwylusydd cymunedol | |

## C2.5 Dywedwch wrthym sut y mae eich prosiect a/neu eich nodau sefydliadol yn gyson ag un neu fwy o bum thema Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb Llywodraeth y Deyrnas Unedig (sylwer nad yw'r nodau wedi eu pwysoli ac maent yn gyfwerth)

Nodwch yn glir pa thema/themâu yn y cynllun gweithredu troseddau casineb traws-lywodraethol y mae eich prosiect yn cyd-fynd yn fwyaf agos â hi/â hwy. Gweler tudalen 2 o'r cyfarwyddyd hwn am y pum thema.

## C2.6 Dywedwch wrthym pa edefyn troseddau casineb y mae eich prosiect yn ymwneud ag o

Mae pum edefyn troseddau casineb:

- hil;
- crefydd;
- anabledd;
- cyfeiriadedd rhywiol; a
- hunaniaeth drawsryweddol.

Nodwch pa un o'r rhain fydd canolbwynt eich prosiect.

## C2.7 Dywedwch wrthym at bwy mae'r prosiect wedi ei anelu - dioddefwyr, cyflawnwyr (posibl), neu'r rhai sy'n cefnogi dioddefwyr/cyflawnwyr troseddau casineb - a sut y byddwch yn ymgysylltu â nhw a'u cynnwys yn ei ddatblygiad a/neu ei gyflawni?

Rhaid ichi nodi yn glir gyda phwy y byddwch yn ymgysylltu a sut y bydd yn digwydd. Os ydych eisoes wedi cael cyswllt cychwynnol gyda'r grwpiau arfaethedig nodwch hyn yma, ac amlinellu ar ba bwynt yn ystod oes y prosiect y byddwch yn eu cynnwys.

## C2.8 Rhowch enghraifft ddiweddar o brosiect yr ydych wedi ei gyflawni yn y ddwy flynedd ddiwethaf lle'r ydych wedi gweithio gyda chymunedau i wella deilliannau i'r buddiolwyr (efallai y gofynnir i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu tystiolaeth ychwanegol).

Rhowch fanylion am:

- enw'r prosiect;
- nodau'r prosiect;
- buddiolwyr y prosiect;
- cyfanswm cost y prosiect;
- a gyflawnwyd y prosiect ar amser ac o fewn ei gyllideb;
- deilliannau'r prosiect; a
- sut y gwerthuswyd deilliannau'r prosiect.

## C2.9 Monitro a Gwerthuso

C2.9 canolbwyntiwch ar sut y byddwch yn dangos llwyddiant eich prosiect. Cyfeiriwch at **Atodiad A** sy'n rhoi cyfarwyddyd manwl ar sut i lenwi C2.9.

O ystyried pwysigrwydd defnyddio HCCPF i rannu tystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio wrth ymdrin â throseddau casineb, mae gwerthuso yn bwysig i ni a bydd yn cael ei asesu yn ystod y gwaith hidlo cyntaf.

Bydd angen i'r rhai sy'n llwyddiannus ddatblygu cynllun gwerthuso mwy ffurfiol, gan ddangos pa fanteision y bydd y prosiect yn eu creu a sut y gellir mesur hyn, gan gynnwys:

- model rhesymeg terfynol;
- cynllun gweithgaredd gwerthuso (allbwn, deilliannau, offer gwerthuso);
- amserlen gwerthuso; ac
- unrhyw broblemau neu risgiau penodol

Bydd pecyn cymorth yn cael ei ddarparu gyda chyfarwyddyd am offer a dulliau (gan gynnwys defnyddio grwpiau cymharu). Bydd hyn yn cael ei ddilyn gyda hyd at ddau ddiwrnod o gefnogaeth gan arbenigwr gwerthuso i'ch helpu i fireinio eich cynigion ymhellach petai arnoch angen hynny.

Disgwylir i brosiectau llwyddiannus gwblhau gwaith monitro a gwerthuso trwy gydol y prosiect, a rhoi adroddiadau chwarterol am werthuso a'r gweithgareddau, yn ogystal â darparu adroddiad terfynol yn cynnwys hanes y prosiect, gwerthusiad a'r sefyllfa ariannol.

Bydd templedi ar gyfer yr adroddiadau uchod yn cael eu darparu i brosiectau llwyddiannus. Bydd hyn yn cynnwys manylion cyflawni allbwn y prosiect a chrynodeb o weithgareddau.

## Cyllideb y Prosiect

### C2.10 Faint fydd eich prosiect yn ei gostio a sut y byddech yn hoffi ei gael gennym ni?

Yn yr adran hon, mae'n bwysig nodi yn fanwl yn union sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r cyllid a sut yr ydych wedi cyfrifo'r costau. Bydd hyn yn ein helpu i asesu a yw'r costau a ragwelwyd ar gyfer y prosiect yn gymesur, realistig ac yn cynnig gwerth am arian.

Gallwch ddarparu amcangyfrifon ond gwnewch yn siŵr eu bod mor gywir â phosibl.

- Cynhwyswch gost popeth y bydd arnoch ei angen ar gyfer eich prosiect, hyd yn oed os nad ydych yn gofyn i ni ei ariannu.
- Mae costau refeniw yn cynnwys pethau fel hyfforddiant, cyflogau, teithio, costau rhedeg, llogi lleoliadau, a threuliau gwirfoddolwyr.
- Cynhwyswch faint y bydd yn ei gostio i gyflawni'r gwaith monitro a gwerthuso ar y prosiect.

Mae rhagor o fanylion am at beth a sut y gallwch hawlio cyllid ar gael yn **adran 6** o'r cyfarwyddyd hwn.

### C2.11 Yn ardaloedd pa awdurdodau lleol fydd eich prosiect yn cael ei gyflawni? (Nid yw'r cwestiwn hwn wedi ei bwysoli)

Dylech ddarparu manylion daearyddol am eich prosiect neu ddweud wrthym os yw ar-lein.

# Adran 4 - Caniatâd

Yn yr adran hon rydym yn gofyn am fanylion ychwanegol am eich sefydliad. Rydym hefyd yn gofyn i chi lofnodi datganiad o werthoedd.

# Adran 5 - Metrics Diwydrwydd Dyledus ac Asesu

## Diwydrwydd dyledus - Sefydliadau sy'n ymgeisio:

- A yw wedi ei gydnabod yn dderbyniol gan y Swyddfa Gartref?
- A yw'r partneriaid yn cael eu cydnabod fel rhai derbyniol gan y Swyddfa Gartref?
- A oes gan y sefydliad hanes profedig?
- A yw'r sefydliad wedi cyflenwi manylion i ddangos ei fod yn atebol yn weinyddol?

## Metrics Asesu

Bydd yr holl brosiectau yn cael eu sgorio i ddechrau ar y cwestiynau canlynol:
C2.3A - D – Crynodeb o'r prosiect
C2.9 – Model Rhesymeg

Bydd y rhai sydd â sgôr uchel yn yr adrannau hyn yn cael eu sgorio ar weddill y ffurflen gais. Bydd y rhai sy'n sgorio yn uchel yn gyffredinol yn cael eu hystyried am gyllid. Ni fydd unrhyw gais sy'n sgorio dan 5 mewn unrhyw gwestiwn yn cael ei symud ymlaen. Os bydd gormod o brosiectau yn cael sgôr uchel a dim digon o gyllid ar gael, bydd swyddogion yn gwneud yr asesiad terfynol.

## Sgôr asesu

| Nodiadau Asesu Grant | |
|---|---|
| 0 | Wedi methu rhoi hyder y bydd y prosiect yn bodloni'r gofynion. Ymateb annerbyniol gydag amheuaeth ddifrifol. |
| 2 | Ymateb gwael ac amheuaeth. Nid oes manylion sy'n darbwyllo yn yr ymateb gyda risg na fydd y prosiect yn llwyddiannus wrth gyflawni'r holl ofynion. |
| 5 | Yn bodloni'r gofynion – yn gyffredinol mae'r ymateb yn bodloni'r gofynion, ond nid oes digon o fanylion i gyfiawnhau marc uwch. |
| 7 | Ymateb da sy'n bodloni'r gofynion gyda thystiolaeth dda i'w gefnogi. Yn dangos dealltwriaeth dda. |
| 10 | Ymateb rhagorol a chynhwysfawr sy'n mynd tu hwnt i'r gofynion. Yn dangos ymateb rhagorol gyda thystiolaeth fanwl i gefnogi a dim gwendid gan arwain at lawer o hyder. |

## Meini prawf asesu

| | | % Pwysoliad |
|---|---|---|
| Nodau<br>C2.5 | Dylai ymgeiswyr ddangos sut y bydd eu prosiect arfaethedig yn cyd-fynd ag un neu fwy o bum nod y Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb Traws-lywodraethol. | 10 |
| Ymgysylltu a chynnwys<br>C2.6, C2.7 | Dylai ymgeiswyr ddynodi yn glir pwy fydd buddiolwyr y prosiect arfaethedig a sut y byddant yn ymgysylltu â hwy ac yn eu cynnwys yn natblygiad a/neu gyflawni'r prosiect. | 15 |
| Cyflawni (cynlluniau)<br>C2.3, 2.4 | Dylai ymgeiswyr ddangos cysylltiad rhesymegol clir rhwng y broblem i'w datrys, y gweithgaredd fydd yn cael ei gynnal i ymdrin â'r broblem a sut y bydd yn cael ei gyflawni. Rhoddir ystyriaeth i unrhyw dystiolaeth i gefnogi.<br><br>Rhaid i ymgeiswyr ddarparu cerrig milltir clir i'r prosiect sy'n dangos beth fydd yn cael ei gyflawni a phryd. | 30<br><br>10 |
| Model Rhesymeg<br>C2.9 | Dylai ymgeiswyr ddarparu model rhesymeg clir. | 20 |
| Cyllideb a rheolaeth<br>C2.8, C2.10 | Dylai ymgeiswyr ddarparu enghraifft ddiweddar o brosiect y maent wedi ei gyflawni yn y ddwy flynedd ddiwethaf lle maent wedi gweithio gyda chymunedau i wella deilliannau i'r buddiolwyr<br><br>Dylai'r gyllideb ar gyfer y prosiectau arfaethedig gael ei datgan yn glir a dylai fod yn gymesur â'r gwaith arfaethedig. | 5<br><br>10 |
| C2.11 | A yw'r prosiect yn cael ei gyflawni mewn Ardal Awdurdod Lleol y gellir ei hadnabod?<br>Ydy/Na | 0 |

# Adran 6 - Ynglŷn â’r grant a’r Asesiad

**Mae grantiau** o hyd at £75,000 ar gael i brosiectau dan yr HCCPF.

## Taliadau

Bydd anfonebau yn cael eu talu fel ôl-ddyled. Bydd disgwyl i sefydliadau dalu eu costau misol a gwneud cais i’r Swyddfa Gartref ar ôl talu. Rhaid i bob hawliad gael ei gefnogi gan dystiolaeth o daliad.

Bydd raid i ymgeiswyr llwyddiannus gyflwyno eu **holl** anfonebau ar gyfer y prosiect **erbyn 31 Mawrth 2020**.

## Gorbenion

Gall gorbenion (rhent/trethi/nwy trydan ac ati) a dynnir wrth gyflawni’r prosiect gael eu hawlio fel gwariant cymwys. Rhaid cytuno ar y gorbenion fel rhan o’r broses ymgeisio ar y seiliau canlynol.

1) Rhaid dangos y costau misol ar gyfartaledd am y 3 mis cyn y cais
2) Bydd y dreth yn cael ei hawlio ar sail gymesur, h.y. os oes gennych 10 o staff ac mae 2 yn cyflawni prosiect HCCP, gallwch hawlio 20% o’r costau misol ar gyfartaledd fel gorbenion yn eich hawliadau.
3) Nid oes raid i orbenion y cytunir arnynt fel hyn fod â thystiolaeth i gefnogi’r hawliad.

## Cyfraddau dyddiol

Pan fyddwch yn defnyddio amser gwirfoddolwyr gallwch gynnwys cyfraddau dyddiol ategol i dalu costau gan gynnwys teithio a bwyd. Rhaid i chi gytuno ar y gyfradd ddyddiol ar adeg y cais a bydd angen i chi gyflenwi tystiolaeth bod y gyfradd ddyddiol wedi cael ei rhoi i’r gwirfoddolwr (h.y. taflen wedi ei llofnodi gan y gwirfoddolwr yn cydnabod derbyn y taliad ynghyd â chyfriflen banc/derbynneb tynnu’r arian allan fel tystiolaeth o’r swm a dalwyd). Dylech ddarparu tystiolaeth am sut yr ydych yn cyfrifo’r gyfradd ddyddiol a rhaid i gyfraddau dyddiol beidio â bod yn fwy na £15.

## Gallwn dalu am y costau refeniw canlynol:

- Cyflogau gweithwyr prosiect, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol fel pensiynau, Yswiriant Gwladol a chostau dirwyn swydd i ben, os yn berthnasol ar gyfer y prosiect
- Cyflogau staff rheoli sydd ddim ond yn goruchwylio staff y prosiect, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol fel pensiynau ac Yswiriant Gwladol ar gyfer y prosiect
- Recriwtio staff fydd yn gweithio ar y prosiect
- Treuliau staff y prosiect a gwirfoddolwyr, gan gynnwys; teithio, llety, biliau ffôn ac offer swyddfa
- Rhent, gwresogi, golau, cynnal a chadw ac yswiriant am swyddfeydd ac adeiladau a ddefnyddir ar gyfer hyn yn unig

## Ni fyddwn yn ariannu:

- Unigolion a masnachwyr unigol
- Sefydliadau sy'n creu elw.
- Sefydliadau ag iechyd ariannol gwael neu sydd wedi dangos rheolaeth wael ar grantiau
- Prosiectau sy'n cyflenwi llinellau ffôn/gwefannau/aps i roi adroddiadau
- Costau cyfalaf
- Sylwer na all hawliadau gynnwys TAW

## Llinell Amser y Prosiect

19 Hydref 2018 - Ffenestr ymgeisio yn agor

7 Rhagfyr 2018 - Ffenestr ymgeisio yn cau am 23:59

10 Rhagfyr 2018 – 1 Chwefror 2019 - Cyfnod adolygu'r ceisiadau

Yr wythnos yn dechrau 4 Chwefror 2019 - Ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu

1 Ebrill 2019 – Prosiectau yn Dechrau

31 Mawrth 2020 – Cwblhau'r prosiectau, adroddiad terfynol (naratif, ariannol a gwerthusiad), a'r anfonebau terfynol yn cael eu cyflwyno

Sylwer y bydd disgwyl i brosiectau roi adroddiad yn chwarterol ar gyflawni, cyllid a chynlluniau gwerthuso'r prosiect.

## Adolygu ceisiadau

Bydd y ceisiadau yn cael eu hadolygu gan banel arbenigol sydd â phrofiad o adolygu ceisiadau, monitro a gwerthuso prosiectau.

## Apeliadau

Os byddwch yn aflwyddiannus nid oes proses apelio.

# Atodiad A - Cyfarwyddyd Gwerthuso

Dylid defnyddio'r cyfarwyddyd gwerthuso hwn i gefnogi eich ateb i C2.9 ar y ffurflen gais. Dylai eich ateb i'r cwestiwn hwn ddangos sut yr ydych yn bwriadu monitro gweithgareddau a llwyddiant wrth gyrraedd y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer eich prosiect.

## Pam bod monitro a gwerthuso yn bwysig?

Un o nodau allweddol y rhaglen HCCPF yw cynyddu dealltwriaeth o'r 'hyn sy'n gweithio' wrth ymdrin â throseddau casineb mewn cymunedau trwy ariannu prosiectau arddangos. Bydd angen i brosiectau fedru cynhyrchu tystiolaeth o effeithiolrwydd eu gweithgaredd i gefnogi'r amcan dysgu hwn.

Yn ychwanegol at gefnogi nodau'r HCCPF, bydd monitro a gwerthuso da yn helpu sefydliadau sy'n cael eu hariannu yn uniongyrchol i gyrraedd eu nodau trwy:

- allu monitro cynnydd a dynodi problemau wrth weithredu'r prosiect;
- ddealltwriaeth well o effaith y prosiect, a meysydd lle gellid gwella;
- allu profi unrhyw effeithiau sy'n deillio o'r prosiect i gyllidwyr posibl yn y dyfodol; ac
- annog eraill i fabwysiadu dulliau llwyddiannus.

Nid oes raid i werthuso gymryd llawer o'ch amser na'ch adnoddau, a gall yn aml gael ei gynnwys fel rhan o gynllun y prosiect mewn ffordd sy'n ei gwneud yn haws i gyflawni eich prosiect yn dda.

## Gwerthuso prosiect – eich cyfrifoldebau chi

Mae ymateb yr ymgeisydd i gwestiwn C2.9 yn rhan o'r meini prawf ariannu HCCPF, a disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus lenwi eu gwerthusiad eu hunain, gan ddilyn y camau a amlinellir yn y map proses trosodd. Os nad ydych yn teimlo yn hyderus wrth gyflawni monitro a gwerthuso heb help, gall cynnwys arbenigwr gwerthuso allanol mewn Prifysgol, er enghraifft, fod yn ddewis da i'ch helpu.

## Cefnogaeth i werthuso – beth fyddwn ni'n ei ddarparu

Bydd angen i brosiectau llwyddiannus ddatblygu cynllun gwerthuso mwy ffurfiol, gan ddangos pa fanteision y bydd y prosiect yn eu creu a sut y gellir mesur hyn.  Bydd hyn yn cynnwys:

- eich model rhesymeg terfynol;
- cynllun gweithgaredd gwerthuso (allbwn, deilliannau, offer gwerthuso);
- amserlen gwerthuso; ac
- unrhyw broblemau neu risgiau penodol.

Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn darparu rhywfaint o gefnogaeth i ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd hyn ar ffurf:

- pecyn cymorth gwerthuso a ddyluniwyd ar gyfer prosiectau HCCPF; a
- hyd at ddau ddiwrnod o gyngor ar werthuso gan gynghorydd gwerthuso.

Mae’r map proses trosodd yn nodi pryd a sut y bydd y gefnogaeth hon ar gael ar bob cam.

## Map Proses Werthuso



### 1. Cam ymgeisio

- **Cyfarwyddyd i ymgeiswyr:** Bydd y cyfarwyddyd hwn yn eich helpu i gwblhau cynllun cyflawni'r prosiect a'r model rhesymeg.



### 2. Cynllunio monitro a gwerthuso

- **Pecyn cymorth gwerthuso:** Bydd pecyn cymorth manwl yn cael ei ddarparu i brosiectau llwyddiannus i gefnogi datblygiad eu cynlluniau ac offer gwerthuso.
- **Cynllun gwerthuso pedair tudalen:** Bydd prosiectau llwyddiannus yn llunio cynllun gwerthuso bras, gan gynnwys dewisiadau a dichonolrwydd defnyddio grŵp cymharu, a'i rannu gyda'r Swyddfa Gartref.



### 3. Adolygiad o gynlluniau ac offer gyda chynghorydd gwerthuso un i un

- **Cefnogaeth i werthuso:** Bydd cynghorydd gwerthuso ar gael i ymweld â phob prosiect cyn i'r gweithgareddau ddechrau i ateb cwestiynau a rhoi rhagor o gymorth i roi trefn derfynol ar fonitro prosiectau a chynlluniau gwerthuso, gan gynnwys datblygu unrhyw offer ymchwil.



### 4. Cyflawni'r prosiect a monitro a gwerthuso parhaus

- **Cyflawni gwerthusiad:** Dylai cynlluniau monitro a gwerthuso gael eu cyflawni ochr yn ochr â chyflawni prosiectau.
- **Cefnogaeth i werthuso:** Ar draws camau 4 a 5, bydd pob prosiect yn gallu cael mynediad at y dyraniad sy'n weddill o gefnogaeth gwerthuso (dros y ffôn/trwy e-bost) gan y cynghorydd gwerthuso. Eich penderfyniad chi yw os ydych am ddefnyddio'r gefnogaeth yma a sut y byddwch yn ei defnyddio.



### 5. Cwblhau'r prosiect a'r adroddiad gwerthuso

- **Yr adroddiad terfynol:** Bydd prosiectau yn ysgrifennu adroddiad o'r canfyddiadau i'w rannu gyda'r Swyddfa Gartref ar ôl gorffen cyflawni.

## C2.9 Sut i lunio Model Rhesymeg


Dylai'r model rhesymeg adeiladu ar yr atebion yr ydych eisoes wedi eu rhoi yn C2.3A-2.3D.

### Beth yw model rhesymeg?

Diagram gweledol syml yw model rhesymeg sy'n esbonio beth fydd y prosiect yn ei gyflawni a sut y bydd yn cynhyrchu'r deilliannau a'r effeithiau yr ydych yn gobeithio eu cyflawni, er enghraifft, newidiadau yn ymwybyddiaeth, gwybodaeth, agweddau neu ymddygiad pobl. Dylai model rhesymeg da gynnig **esboniad clir a rhesymegol** o'r modd y bydd gweithgareddau'r prosiect yn arwain at lwyddiant y prosiect.

### Beth yw'r camau i ddatblygu model rhesymeg?

Crynhoir prif adrannau model rhesymeg yn y ffigwr isod ac yna rhoddir rhagor o fanylion am bob elfen:




- **Problem a rhesymeg:** Rhowch esboniad o'r broblem y mae'r prosiect yn ceisio ei thaclo a pham bod angen y prosiect arfaethedig, gan gynnwys cyfeiriad penodol at y grŵp targed a ddewiswyd a/neu ddaearyddiaeth os yn berthnasol. Dylai hwn fod yn gysylltiedig â'r broblem y gwnaethoch ei dynodi yn eich ymateb i C2.3. Gwnewch yn siŵr bod eich esboniad o'r problemau yr ydych yn ceisio eu taclo yn syml a chlir.

- **Mewnbynnau:** Y mewnbynnau yw'r adnoddau yr ydych yn eu rhoi i mewn i'r prosiect sy'n arwain at gyflawni'r gweithgareddau a gynlluniwyd. Dylech ystyried cynnwys:

  - **Mewnbynnau ariannol**: ffynonellau a symiau o gyllid a fydd yn cael eu defnyddio i gyflawni'r prosiect (gwahaniaethwch yn glir rhwng cyllid HCCPF a ffynonellau eraill);
  - **Mewnbynnau heb fod yn ariannol:** gallai'r enghreifftiau gynnwys amser staff neu wirfoddolwyr, sefydliadau/partneriaethau eraill sy'n cymryd rhan, cyfleusterau, sgiliau penodol, neu offer sy'n bodoli fydd yn cael eu defnyddio.

- **Gweithgareddau:** Nodwch yr hyn yr ydych yn bwriadu ei gyflawni. Gwnewch yn siŵr bod eich gweithgareddau yn glir, yn wahanol i'w gilydd ac yn trafod yr ystod lawn o weithgareddau yr ydych yn bwriadu eu cyflawni. Pan fydd yn bosibl, rhowch ffigyrau dangosol, e.e. nifer y gweithdai.  Mae'r enghreifftiau yn cynnwys:

  - ymchwil i fod yn sail i ddatblygu deunyddiau'r prosiect;
  - hyrwyddo gwasanaethau/digwyddiadau;

- recriwtio cyfranogwyr; neu
- redeg gweithdai neu gyrsiau gyda chyfranogwyr.

Pan fydd yn berthnasol cynhwyswch fanylion fel nodweddion penodol y cyfranogwyr yr ydych yn anelu at eu recriwtio.

- **Allbynnau:** Nodwch yma beth fydd yn digwydd o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau eich prosiect. Cadwch bethau'n syml. Mae allbynnau yn aml yn bethau y gallwch eu cyfrif, fel:

  - y nifer o bobl a ymgysylltodd yn uniongyrchol;
  - y nifer o ddefnyddwyr ar-lein a ymgysylltodd (e.e. lawrlwytho pecyn cymorth);
  - nifer y staff a hyfforddwyd;
  - nifer y gweithdai/digwyddiadau a gynhaliwyd; neu
  - nifer y sefydliadau a gymerodd ran.

Cynhwyswch dri i bump o allbynnau gan gynnwys targedau (rhifyddol) realistig. Efallai y bydd rhai allbynnau sy'n bwysig i'r prosiect nad ydynt yn hawdd eu mesur. Ar gyfer y rhai nad ydych yn siŵr ohonynt, rhowch ryw awgrym neu syniadau i helpu i asesu eich cais. Os byddwch yn llwyddiannus, gallwch ddychwelyd at y rhain gyda chefnogaeth gan y cynghorydd gwerthuso.

- **Deilliannau (tymor byr/canolig):** Deilliannau yw'r newidiadau y byddech yn disgwyl eu gweld os bydd eich prosiect yn llwyddiannus. Cadwch bethau'n syml a chanolbwyntio ar y deilliannau pwysicaf i'ch prosiect. Dylech gael cyfanswm o tua 3-5 o ddeilliannau disgwyliedig. Dylai deilliannau gael eu grwpio yn themâu a byddant yn gwahaniaethu gan ddibynnu at bwy y mae eich prosiect wedi ei anelu (gweler y tabl trosodd am enghreifftiau i'ch helpu). Cofiwch nad oes disgwyl i chi gynnwys deilliannau o bob grŵp, ac y dylech ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf perthnasol i'ch prosiect chi.

  - **Deilliannau gwybodaeth**: Mae'r rhain yn ymwneud â gwella dealltwriaeth o'r mater yr ydych yn ceisio ei daclo. Er enghraifft, cynyddu ymwybyddiaeth o sut a ble i roi adroddiad am droseddau casineb.
  - **Deilliannau agweddol:** Gall prosiectau geisio newid agweddau neu gredoau'r unigolion y maent yn ymgysylltu â nhw. Er enghraifft, cynyddu hyder y dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol i weithredu ar adroddiadau am droseddau casineb.
  - **Deilliannau ymddygiad:** Mae'r rhain yn ymwneud â cheisio dylanwadu ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud neu newid hynny. Er enghraifft, cynyddu cymysgu cymdeithasol.
  - **Deilliannau llesiant:** Mae'r rhain yn ymwneud â cheisio gwella llesiant ar lefel unigol. Er enghraifft, gwella gwytnwch dioddefwr (posibl) i'r niwed y mae troseddau casineb yn ei achosi.

- **Newidiadau i systemau:** Deilliannau yw'r rhain sy'n canolbwyntio ar geisio gwella'r ffordd y mae'r cyhoedd a gwasanaethau eraill yn ymdrin â materion troseddau casineb. Er enghraifft, gwella sgiliau staff rheng flaen i gefnogi dioddefwyr troseddau casineb.

## Enghreifftiau o ddeilliannau

| PROSIECTAU GWEITHIO GYDA DIODDEFWYR (POSIBL) TROSEDDAU CASINEB | PROSIECTAU YN GWEITHIO GYDA CHYFLAWNWYR (POSIBL) TROSEDDAU CASINEB |
|---|---|
| **Deilliannau gwybodaeth** | |
| - Dealltwriaeth o natur troseddau casineb (h.y. beth yw troseddau casineb, sut y mae troseddau casineb yn wahanol i droseddau nad ydynt yn rhai casineb)<br>- Ymwybyddiaeth o amlygrwydd troseddau casineb (h.y. pa mor aml y mae'n digwydd yn fy nghymuned)<br>- Deall sut i roi adroddiad am droseddau casineb (h.y. ble i fynd, â phwy y dylid siarad, beth fydd yn digwydd nesaf) | - Dealltwriaeth o natur troseddau casineb (h.y. beth yw troseddau casineb, sut y mae troseddau casineb yn wahanol i droseddau nad ydynt yn rhai casineb)<br>- Ymwybyddiaeth o amlygrwydd troseddau casineb (h.y. pa mor aml y mae'n digwydd yn fy nghymuned)<br>- Gwybodaeth am gymunedau / diwylliannau eraill |
| **Deilliannau agweddol** | |
| - Parodrwydd a hyder i roi adroddiad am droseddau casineb<br>- Ymddiriedaeth y bydd y system yn cynhyrchu deilliant teg o ran cyfiawnder<br>- Parodrwydd i chwilio am help/cefnogaeth<br>- Ymddiriedaeth y bydd y system yn rhoi cefnogaeth o safon uchel a phriodol<br>- Ofn erlid/erlid eto<br>- Ofn dial | - Empathi at eraill<br>- Derbyn/cefnogi aml-ddiwylliannaeth<br>- Rhagfarn yn erbyn grwpiau sy'n wahanol iddynt hwy<br>- Amgyffrediad o grwpiau eraill fel bygythiad |
| **Deilliannau ymddygiadol** | |
| - Chwilio am help/cefnogaeth<br>- Rhoi adroddiadau am droseddau casineb (h.y. a ydych wedi rhoi adroddiad am y digwyddiad /a ydych yn bwriadu rhoi adroddiad am y digwyddiad?) | - Rhyngweithio gyda phobl o gymunedau eraill<br>- Ymddygiad ymosodol neu dreisgar i ddatrys gwrthdaro<br>- Cyflawni troseddau casineb |
| **Deilliannau llesiant** | |
| - Niwed/canlyniadau troseddau casineb i ddioddefwyr<br>- Gwytnwch i niweidiau sy'n gysylltiedig â throseddau casineb (e.e. os yw'r prosiect yn anelu i ddysgu ffyrdd o ymdopi â'r effeithiau ar fywyd bob dydd i ddioddefwyr) | - Cefnogi cyflawnwyr posibl i ymdrin â'r ffactorau gwaelodol fel teimlo euogrwydd, cywilydd ac allgauedd cymdeithasol |
| **Newidiadau system** | |
| - Gwella sgiliau'r staff rheng flaen i gefnogi dioddefwyr troseddau casineb<br>- Cefnogaeth fwy hygyrch/priodol i ddioddefwyr troseddau casineb | - Gwella sgiliau staff rheng flaen i ddynodi troseddau casineb a rheoli'r sefyllfa gyda'r rhai sy'n eu cyflawni<br>- Gwella dealltwriaeth o'r ysgogiad tu ôl i droseddau casineb a sut i'w hwynebu |

- **Effeithiau (tymor hwy):** Nodwch yr effeithiau ehangach y mae eich prosiect yn bwriadu cyfrannu atynt. Mae effeithiau yn debygol o gymryd mwy o amser i ddod yn ffaith ac efallai na fyddant yn cael eu cyflawni yn ystod oes eich prosiect. Wrth lenwi'r model rhesymeg, dylai'r effeithiau yr ydych yn ceisio eu cyflawni gysylltu â'r problemau a ddynodwyd gennych yn C2.3. Er enghraifft, os bydd un o'r problemau/materion a ddynodwyd yn ymwneud â diffyg cefnogaeth i ddioddefwyr troseddau casineb, yna eich nod yw gwell profiad o roi adroddiad a chael cefnogaeth i ddioddefwyr.

**Sylwer os byddwch yn llwyddiannus, bydd yn ofynnol i chi gynhyrchu cynllun gwerthuso a fydd yn cynnwys datblygu dulliau mesur allbynnau a deilliannau yn llawnach.**

# Atodiad B - Llythyr Cytundeb Sefydliad

[Nodwch y sefydliad

a'r cyfeiriad]

Hate Crime Community Projects Fund

The Home Office

2 Marsham Street, 5th Floor Fry

London, SW1P 4DF

[Rhowch y dyddiad]

Annwyl Foneddigion

[Rhowch enw'r prosiect]

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran [rhowch enw'r sefydliad], i gadarnhau ein bod yn cytuno â'r prosiect arfaethedig, fel y nodir yn y cais i'r HCCPF. Rwyf hefyd yn cadarnhau ein bod yn hapus gyda'r disgrifiad o'n sefydliad, ein sgiliau a'n profiad, a'r rôl y byddwn yn ei chware yn y prosiect.

Yn gywir iawn

[Rhowch enw]

Ar ran [rhowch y sefydliad]